Granville Sharp 1735–1813

Awdur ac ymgyrchydd i ddiddymu caethwasiaeth

Granville Sharp oedd nawfed mab Thomas Sharp, Archddiacon Northumberland, a'i wraig Judith ac fe'i ganwyd ar 10 Tachwedd 1735. Bu ei daid yn Archesgob Efrog. Wedi iddo gael peth addysg mewn ysgolion lleol cafodd brentisiaeth gyda Chrynwyr oedd yn rhedeg cwmni o ddilledyddion. Datblygodd ddiddordeb mawr mewn diwinyddiaeth a dysgodd beth Groeg a Hebraeg ohono ei hun. Ym 1757 cwblhaodd ei brentisiaeth a daeth yn rhyddfreiniwr (freeman) yn Ninas Llundain fel aelod o gwmni gwerthu pysgod. Aeth yr hwch trwy'r siop yn y busnes dilladu, felly derbyniodd waith fel clerc yn swyddfa'r Deddfiad (*ordinance*) yn y Tŵr yn Llundain.

Yn y cyfnod hwn dyfnhaodd ei ddiddordeb mewn ysgolheictod Beiblaidd, ieithoedd a henebion. Dechreuodd ar ei yrfa fel awdur trwy gyhoeddi *A Short Treatise on the English Tongue* (1767). Daeth hefyd dan ddylanwad efengyliaeth a effeithiodd yn drwm arno weddill ei oes. Ynghanol y 1760au dechreuodd gefnogi'r ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth o ddifrif wedi iddo gyfarfod caethwas o'r enw Jonathan Strong oedd wedi cael ei gam-drin gan ei berchennog David Lisle. Cynrychiolodd Sharp Strong yn y llys ac aeth ati i ymchwilio i safle cyfreithiol caethweision ym Mhrydain a chyfreithiau rhyddid sifil.

Ym 1769 cyhoeddodd *A Representation of the Injustice and Dangerous Tendency of Tolerating Slavery*. Yr achos llys pwysicaf yn ei hanes oedd pan gynrychiolodd y caethwas James Somerset ym 1772. Yn yr achos hwn datganodd y barnwr fwy neu lai fod unrhyw gaethwas oedd yn dod i wledydd Prydain i gael ei ystyried yn rhydd. Cyhoeddodd lawer iawn o dractiau a llyfrau yn erbyn caethwasiaeth gan gynnwys *The Law of Liberty* ym 1776. Ceisiodd yn aflwyddiannus ym 1783 ddwyn achos o lofruddiaeth yn erbyn perchenogion llong y *Zong* am iddynt daflu 100 o gaethweision i'r môr. Gwrthwynebai yn chwyrn y Rhyfel Annibyniaeth yn America gan ddadlau y dylent fod yn driw i goron Lloegr.

Gadawodd ei waith yn y swyddfa Deddfiad gan fyw wedyn ar yr elw a wnaed o'i gyhoeddiadau a haelioni ei frodyr. Dechreuodd hefyd ymgyrchu yn erbyn y defnydd o'r près (*press gang*) fel dull o gael dynion i ymuno â'r llynges. Trwy gydol ei oes bu yn aelod o Eglwys Loegr ac yn gysylltiedig gyda Sect Clapham a wnaeth gymaint o waith arloesol. Pan sefydlwyd *The Society for the Abolition of the Slave Trade* ym 1787 roedd Sharp yn un o'r 12 aelod gwreiddiol yn Llundain. Er nad oedd erioed yn cael ei ystyried yn awdur poblogaidd roedd ei gyhoeddiadau o bwysigrwydd mawr i ddatblygiad y mudiad gwrth-gaethwasiaeth ym Mhrydain. Trwy ei weithiau ef y trawsnewidiwyd yr ymgyrch o fod yn farn lleiafrif dirmygedig i fod yn ymgyrch drefnus ac effeithiol. Mae rhai yn ei ystyried ef yn sylfaenydd yr ymgyrch yn Lloegr. Ef hefyd oedd cadeirydd cyntaf Cymdeithas y Beibl Frutanaidd a Thramor a sefydlwyd ym 1804.

Trwy gydol ei oes ymddiddorai mewn cerddoriaeth. Roedd yn delynor o fri a byddai ef a'i deulu yn cynnal cyngherddau ar gwch a deithiai i fyny ac i lawr afon Tafwys. Cyhoeddodd lyfr cerddorol sef *A Short Introduction to Vocal Music*. Bu farw ar 6 Gorffennaf 1813 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent eglwys Fulham.